

9. GWE GWENNO
(Gwanwyn)

Yr oedd Gwenno'r Pryf Cop yn byw yng nghartef yr Athro Jenkins. Pryf Cop digon cyffredin oedd hi, ond roedd ganddi un ddawn arbennig. Gallai nyddu gwe penigamp. Gwnâi hyn ymhobman yn y tŷ – yn y gegin, yn y cyntedd, yn y lolfa. Ac wrth iddi nyddu byddai'n gobeithio ac yn gweddïo. Byddai'n breuddwydio ac yn dyheu. Ac roedd ei holl weddïau, gobeithion a breuddwydion yn troi o amgylch un dymuniad. Roedd yn awchu am i'r Athro Jenkins edmygu ei gwaith.

Ond roedd un anhawster. Roedd yr Athro Jenkins wastad â'i drwyn mewn llyfr.

Yna, un dydd, cafodd Gwenno syniad. Aeth i mewn i stydi'r Athro Jenkins, dringodd i ben ei ddesg a nyddu gwe ysblennydd ar ei lamp. 'Nawr pam na wnes i feddwl am hyn cyn heddiw?' ystyriodd wrth iddi sgrialu'n ôl i edmygu'r gwe. Nawr fod ei champwaith mewn man mor amlwg – byddai'n amhosibl i'r Athro Jenkins ei fethu hyd yn oed.

Roedd hi'n fwy bodlon nag erioed pan glywodd sŵn yr allwedd yn y drws. 'Mae o adre'n gynnar,' meddyliodd. 'Fe ddaw i'r stydi ar ei union.'

‘O diar, diar mi,’ meddai rhyw lais.

Syfrdanwyd Gwenno. Nid llais yr Athro mohono.

‘Does neb wedi hel llwch yma ers blynyddoedd, diar mi.’

Ar bigau drain i ddarganfod pwy oedd wedi meiddio dod i mewn tra oedd yr Athro i ffwrdd, disgynnodd Gwenno oddi ar y ddesg a sleifio trwodd i’r cyntedd.

Yno safai gwraig â’i gwallt wedi britho yn gwisgo ffedog, a bwced yn ei llaw.

‘Diar, diar mi! Edrychwch ar hynna.’ Y newydd da oedd ei bod wedi sylwi ar greadigaethau Gwenno. Ond y newydd drwg oedd nad oedd hi’n eu hoffi. ‘Gwe pry cop! Gwe pry cop ymhobman,’ cwynodd. Yna, er mawr siom i Gwenno, torchodd ei llewys a mynd ati i weithio.

Chwistrelliad – rhwbio, chwistrelliad – rhwbio. Gwelodd Gwenno ei holl waith caled yn cael ei ddifa.

Ac allai hi wneud dim. Dim ond llechu yn y gornel.

Ychydig funudau’n ddiweddarach clywodd sŵn ail allwedd yn nhwll y clo, a’r tro hwn yr Athro oedd yna. Diolch byth! O, roedd Gwenno’n gobeithio y byddai’n sylweddoli fod ei holl waith gwych wedi cael ei ddifa. Dyma gyfle iddo gael dweud mor hoff yr oedd o’i gwaith, ac i roi pryd o dafod i’r wraig ddigywilydd am beri’r fath ddinistr.

Ond ei siomi gafodd Gwenno.

‘O, fy annwyl Mrs Mop, rydech chi wedi dechrau ar y glanhau blynyddol!’ meddai’r Athro a gwên foddhaus ar ei wyneb. ‘Dwi’n gweld gwahaniaeth mawr yn barod.’

‘Roeddech chi wedi gadael i’r lle fynd â’i ben iddo braidd, Athro. Ond fydda i fawr o dro’n cael y lle i drefn eto. I ffwrdd â chi i’r gegin am baned o de i minnau gael cwblhau’r gwaith. Dim ond y stydi sy ar ôl nawr.’

Agorodd ddrws y stydi. ‘O diar, diar mi. Rhagor o we pry cop!’ Chwifiodd y wraig ei chadach a dyna ddiwedd ar y gwe ar y lamp. Ond roedd Gwenno mor ddigalon ar ôl geiriau creulon yr Athro, fel nad oedd yn hidio mwyach. Cawsai ei bradychu ganddo. Roedd o wedi dangos mwy o werthfawrogiad i Mrs Mop mewn pum munud nag a wnaeth iddi hi gydol ei bywyd.

'Ych! Hen bry copyn budr.' Fel pe na bai ymosod ar ei gwaith yn ddigon, y funud nesaf roedd y wraig yn ymosod ar Gwenno hefyd.

CHWIP. Mewn amrantiad roedd Gwenno allan yn yr ardd. Yn ddi-gartref – tra eisteddai'r Athro yn y gegin yn sipian ei de'n dawel bach heb bryder yn y byd.

Teimlai Gwenno fel pe bai ei bywyd yn deilchion.

'Rhoddais fisoedd gorau fy mywyd i'r gŵr yna,' cwynodd. 'A dyna'r diolch dwi'n gael. Pe bawn i'n sgorpion byddwn yn dringo i fyny'r bibell ddŵr glaw a'i bigo yn y bath.'

Dechreuodd aderyn y to mewn llwyn cyfagos chwerthin.

'Fyddai hynny'n dda i ddim,' twitiodd.

'Pam?' holodd Gwenno.

'Oherwydd fyddai o'n dal ddim yn edmygu dy we.'

Roedd hynny'n wir. Rowliodd y pry cop ei hunan yn bêl fach drist.

'Felly, beth wyt ti am wneud nawr?' twitiodd yr aderyn eto.

'Dim,' atebodd Gwenno.

'Paid â bod yn wirion. Chefaist ti mo dy greu i wneud dim. Cefaist dy greu i lunio gweoedd. Y broblem yw – ti wedi bod yn eu nyddu ar gyfer y person anghywir. Ar gyfer y Creawdwr y dylet ti eu llunio – nid yr Athro Jenkins.'

A gyda hynny hedfanodd yr aderyn i ffwrdd.

Yn sydyn canfu Gwenno ei hunan yn dringo – i fyny brigau a dail nes cyrraedd yr union fan yn y llwyn lle bu'r aderyn gynnau.

Yn feddylgar lluniodd edau fain o sidan. Am ennyd bu'r edau'n hofran ar y gwynt cyn bachu'i hunan ar frigyn gerllaw. 'Nydda i'r Creawdwr.' Cofiodd eiriau'r aderyn. Felly aeth ati i nyddu. Yna, o'r diwedd, pan oedd yr edau olaf yn ei lle swatiodd ynghanol y gwe. 'Mae hwn i ti,' meddai'n flinedig ac yna syrthiodd i gysgu.

Drannoeth cafodd ei deffro gan drydar swnllyd yr aderyn.

Wel am sŵn! 'Mae'n rhaid mai canu i'r Creawdwr y mae,' meddyliodd Gwenno'n gysglyd. 'Ond byddai'n dda gen i pe bai o'n gwneud hynny ychydig yn dawelach.' Ar yr un pryd allai hi ddim llai na meddwl beth yn union oedd yn peri i'r aderyn ganu â'r fath lawenydd.

'Dowch i weld. Dowch i weld,' canai'r aderyn.

Felly ymunodd y pryf cop ag ef ar ei glwyd. Ac yno, yn yr union fan lle bu hi gynt yn cysgu, gwelodd rywbeth cwbl ryfeddol: ei gwe hi – wedi ei lwyr drawsnewid gan ddafnau o wlith – yn pefrio a disgleirio yn yr haul. Gyda hynny agorodd drws y tŷ. Edrychodd yr Athro o'i gwmpas ac oedd, yr oedd yntau wedi ei weld hefyd. Tynnodd ei sbectol i ffwrdd, ei glanhau, ac yna ei rhoi'n ôl i gael edrych eilwaith.

O'r diwedd roedd Gwenno wedi llwyddo i ddal ei sylw.

'Hardd! Mor hardd!' dywedodd.

HYD: 5 munud

NEGES: Beth bynnag rydym yn ei wneud, dylem ei wneud i'r Arglwydd.

DARLLEN: Colosiaid 3: 23–24